CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 13eg o Ionawr 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Miriam Webb, Emrys Thompson a Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd).

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg o Dachwedd** ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'I eilio gan Cyng Steve Lewis.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Adroddwyd ymatebion Cyngor Gwynedd am yn tramwyo drwy gefn gardd Rhif 1 Maesmeillion, a bod angen arwydd yno. Hefyd bod y gwaith i drin coed yn tyfu o'r wal yn Cwrt mewn llaw.

Nodwyd fod camfa wedi torri ar y llwybr ger Nantcaw – sef ychydig cyn cyrraedd y ty.

Roedd angen polion/crash barrier newydd ar y ffordd ger Talyllyn a nodwyd llun i law gan Cyng Eleri Puw.

Yn dilyn cau y Briffordd ger Corris yn ddiweddar, nodwyd fod rhai o'r arwyddion yn gamarweiniol/dim digon clir.

b) **Rheilffordd Talyllyn/Safle Treftadaeth** – nodwyd y dylid danfon ymlaen y syniadau gan y Cyngor Cymuned, sef cael y wagen lechi, QR code yn y chwarel, arwyddbyst o'r newydd yn y pentref, pwyntiau gwybodaeth (rhai sy'n troi) angen eu diweddaru, plethu gwaith chwareli a band pres, ail-greu amgueddfa, gwneud ffilm ayyb

Nodwyd mai prin oedd yr holiaduron oedd wedi eu dychwelyd. Gofynnwyd a fyddai modd ymestyn y dyddiad cau ychydig, o gofio bod y Railway wedi cau dros fis Ionawr. Hefyd nodwyd fod yr holiadur 'celf' o bosib yn gamarweiniol.

c) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, ond nodwyd y byddai hyn ar y gweill yn fuan.

d) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – addawodd y Clerc y byddai yn cynorthwyo i gael amcangyfrifon erbyn y cyfarfod nesaf. Penderfynwyd gofyn i Aled Rees, Machynlleth (Rees welding) , Les Hunt (Tywyn) a gweithdy Talyllyn Railway.

e) **Gwaith ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn**.

Nododd y Clerc yr amcangyfrifon i law gan Kevin Jones ac Arwyn Davies. Nid oedd Tywyn Tree Services yn medru gwneud y gwaith oherwydd prysurdeb. Ar gynnig Cyng Robert Jones a'i eilio gan Cyng Dylan Jarman, penderfynwyd yn unfrydol ar bris Kevin Jones am gyfanswm o £1450 ar gyfer y cyfan o'r gwaith sydd ei angen yn y fynwent.

**5. Materion Cynllunio**

Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

6. **Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2023-24 - nodwyd fod y Clerc wedi ymateb i fân ymholiadau.

b) Roedd llythyr o ddiolch gan Mrs Ceinwen Jones am y cyfraniad i Eisteddfod Abergynolwyn.

c) Anfonebau;

Ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Eleri Puw, cytunwyd i dalu y canlynol;

- **Cydnabyddiaeth trydydd chwarter y Clerc** £400.01 a HMRC £100.
- **Anfoneb Jones & Jones** am gynnal llwybrau yn flynyddol - £906.(roedd hwn am y cynnal a chadw ar lwybrau 33,4,3,19,43,5,20,10 a darparu un goeden Nadolig)

  (Yn y cyswllt hyn hefyd, nodwyd fod hawl i £300 o ad-daliad gan Gyngor Gwynedd, a nododd y Clerc anfoneb yr oedd wedi ei baratoi)

Hefyd, nodwyd y canlynol;

  - **Cost y Ganolfan a'r cyfraniad i'r Wi Fi** – darllenwyd e-bost gan Frances Cator. Byddai'r Clerc yn ymateb. Nodwyd nad oedd cytundeb i dalu cyswllt Wi Fi, ac mai hanner cost y Neuadd a delir gan y Cyngor yn ol cytundeb, gan nad yw'r ystafell bwyllgor ar gael ar noson y Cyngor.

- Cydnabyddiaeth flynyddol Cynghorwyr – byddai pawb yn hawlio eto eleni, a byddai'r Clerc yn paratoi erbyn tro nesaf.

d) Ceisiadau am arian

- Ambiwlans Awyr Cymru – adroddwyd yr ymateb ers cyfarfod dwethaf. Penderfynwyd gadael y mater am y tro
- Yr Urdd – cais gan Bwyllgor Rhanbarth Meirionnydd – penderfynwyd peidio cyfrannu am y tro, a bod angen mantolen

e) Paesept 2025-2026 – roedd cadarnhad i law gan Cyngor Gwynedd **am y cynnydd i £12600.**

**7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Roedd ymddiheuriad gan Cyng Beth Lawton.

8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Nid oedd adroddiad, ond cyfeiriodd at ymddeoliad Mel ab Owain. Diolchwyd yn fawr iawn iddo am ei waith, a byddai yn chwith ei golli o Un Llais Cymru.

**9.Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant**

Roedd siec am £127 i law am osod cofeb Glyndwr Edwards a Patricia Ann Edwards.

Nododd Cyng Robert Jones ei fod wedi clirio coeden oedd wedi cwympo, er nad oedd difrod i gerrig beddi. Roedd un rhan o'r goeden angen ei chlirio eto, a byddai rhaid ystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

b) **Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru** – nid oedd rhain i law eto.

c) **Cynhadledd SLCC/Un Llais Cymru** – Dydd Mercher 20fed Tachwedd – adroddodd y Clerc am rai o'r materion a drafodwyd. Rhestrwyd y siaradwyr, a oedd yn cynnwys yr Archwilydd Deryck Evans, Paul Egan ULl C, a Jayne Bryant AS, a chynrychiolydd cwmni Gallanger. Nodwyd bwysigrwydd gofal o asedau'r Cyngor, a byddai'r Clerc yn rhoi hyn ar yr agenda tro nesaf.

d) Nodwyd e-bost gan y Cyng Steve Lewis am y Defibrillator cyhoeddus Abergynolwyn, a chafwyd crynodeb. Cytunwyd mewn egwyddor i ysgwyddo un rhan o dair o'r gost (ar y cyd gyda'r Sioe a'r Ganolfan)

e) Nodwyd lythyr gan Liz Saville Roberts AS, a byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu.

**f)** Nodwyd wybodaeth oedd I law am yswiriant ar gyfer risc seibr, (Cyber and Technology Errors and Omissions insurance) Gwelwyd fod hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried eto yn y dyfodol.

**10. Unrhyw fater arall**

- Roedd arwydd beics wedi cwympo ger maes parcio'r Ganolfan, ac addawodd Cyng Steve Lewis geisio cael cadarnhad o bwy sy'n gyfrifol.
- Roedd arwyddbost Mari Jones yn Llanfihangel y Pennant angen sylw, ac addawodd Cyng Robert Jones edrych i mewn i hyn.
- Roedd cwyn ddaeth drwy law Cyng Beth Lawton fod peipen wedi blocio ar y ffordd i'r chwarel tu ol y Neuadd. Addawodd y Clerc ddelio efo hyn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF;   Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN  NOS LUN 10fed Chwefror 2025 , 7.00y.h.**

**..........................................................................................................................................**

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 13th of January 2025 at 7.00pm in the Centre, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was an apology from Cllr Miriam Webb, Emrys Thompson and Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council).

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matter on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 11th of November were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts seconded by Cllr Steve Lewis.

4. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

Gwynedd Council's responses were reported about passing through the back of garden No. 1 Maesmeillion, and that a sign is needed there. Also that the work to treat trees growing from the wall in Cwrt is in hand.

It was noted that a stile had broken on the path near Nantcaw - just before reaching the house.

New poles/crash barrier were needed on the road near Talyllyn and a photo was noted by Cllr Eleri Puw.

Following the recent closure of the Highway near Corris, it was noted that some of the signs were misleading/not clear enough.

b) Talyllyn Railway/Heritage Site - it was noted that the ideas should be forwarded by the Community Council, namely having the slate wagon, QR code in the quarry, new signposts in the village, information points (some that rotate) they need to be updated, weaving quarries and brass band work, reconstructing a museum, making a film etc

It was noted that few questionnaires had been returned. It was asked if it would be possible to extend the closing date a little, bearing in mind that the Railway was closed over the month of January. It was also noted that the 'art' questionnaire was possibly misleading.

c) A tree damaging a wall - there was no update, but it was noted that this would be planned soon.

d) Inspection of the playing field by ROSPA - the Clerk promised that he would assist in obtaining estimates by the next meeting. It was decided to ask Aled Rees, Machynlleth (Rees welding), Les Hunt (Tywyn) and the Talyllyn Railway workshop.

e) Work at Y Fedw Abergynolwyn cemetery.

The Clerk noted the estimates received by Kevin Jones and Arwyn Davies. Tywyn Tree Services was unable to do the work due to busy schedule. On the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Cllr Dylan Jarman, it was unanimously decided on the price of Kevin Jones for a total of £1450 for all the work required in the cemetery.

5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - it was noted that the Clerk had responded to minor inquiries.

b) There was a letter of thanks from Mrs Ceinwen Jones for the contribution to the Abergynolwyn Eisteddfod.

c) Invoices;

On the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Eleri Puw, it was agreed to pay the following;

• Clerk's third quarter remuneration £400.01 and HMRC £100.

• Jones & Jones invoice for maintaining routes annually - £906. (this was for the maintenance on routes 33,4,3,19,43,5,20,10 and providing one Christmas tree)

(In this connection also, it was noted that there was a right to a £300 refund from Gwynedd Council, and the Clerk indicated an invoice he had prepared)

Also, the following was noted;

• The cost of the Ganolfan and the contribution to the Wi Fi - an email was read from Frances Cator. The Clerk would respond. It was noted that there was no agreement to pay for the Wi Fi connection, and that half the cost of the Hall is paid by the Council according to agreement, as the committee room is not available on the Council night.

• Councillors' annual recognition - everyone would claim again this year, and the Clerk would prepare by next time.

d) Requests for money

• Welsh Air Ambulance - the response since the last meeting was reported. It was decided to leave the matter for now

• The Urdd - a request from the Meirionnydd Regional Committee - it was decided not to contribute for the time being, and that a balance sheet was needed

e) Paesept 2025-2026 - confirmation was received from Gwynedd Council for the increase to £12600.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

There was an apology from Cllr Beth Lawton.

8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

There was no report, but it referred to the retirement of Mel ab Owain. He was thanked very much for his work, and it would be a shame to lose him from Un Llais Cymru.

9. Correspondence.

a) Matters of Llanfihangel y Pennant cemetery

A check for £127 was received for placing the memorial to Glyndwr Edwards and Patricia Ann Edwards.

Cllr Robert Jones noted that he had cleared a tree that had fallen, although there was no damage to gravestones. One part of the tree needed to be cleared again, and this would have to be considered at the next meeting.

b) Un Llais Cymru training dates - these were not yet available.

c) SLCC/Un Llais Cymru Conference - Wednesday 20th November - the Clerk reported on some of the issues discussed. The speakers were listed, which included Auditor Deryck Evans, Paul Egan UL C, and Jayne Bryant MP, and a representative of the Gallanger company. The importance of care of the Council's assets was noted, and the Clerk would put this on the agenda next time.

d) An email from Cllr Steve Lewis about the Abergynolwyn public Defibrillator was noted, and a summary was provided. It was agreed in principle to bear one third of the cost (jointly with the Show and the Centre)

e) A letter from Liz Saville Roberts MP was noted, and the Clerk would distribute it.

f) It was noted that information was available about insurance for cyber risk, (Cyber and Technology Errors and Omissions insurance) It was seen that this is something that should be considered again in the future.

10. Any other matter

- A bicycle sign had fallen near the Center car park, and Cllr Steve Lewis promised to try to get confirmation of who is responsible.
- Mari Jones' signpost in Llanfihangel y Pennant needed attention, and Cllr Robert Jones promised to look into this.
- There was a complaint that came through Cllr Beth Lawton that a pipe was blocked on the way to the quarry behind the Hall. The Clerk promised to deal with this.

**DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN , ABERGYNOLWYN MONDAY 10TH FEBRUARY 7.00PM**